# Hysbysiad o Etholiad

## Dyddiad yr Etholiad: Dydd Iau 17 Gorffennaf 2025

## Cyngor Sir Ddinbych – Ward Canol Prestatyn

## Cyngor Tref – Ward Canol Prestatyn

Bydd etholiadau'n cael eu cynnal ar gyfer 1 cynghorydd sir ac 1 cynghorydd tref fel y nodir uchod. Mae'n rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau ar unrhyw ddiwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn ond ddim hwyrach na **4pm ddydd Gwener, 20 Mehefin 2025.**

1. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN (trwy apwyntiad yn unig) o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn neu'n electronig yn unol â'r trefniadau fel y nodir yn y datganiad cyflawni electronig isod.

2. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau unai yn Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN; neu ar-lein o wefan y Comisiwn Etholiadol:

   - Y Comisiwn Etholiadol: papurau'r cyngor sir [1]
   - Comisiwn Etholiadol: papurau cynghorau dinas, tref a chymuned [2]

   neu gellir gofyn amdanynt yn electronig dros e-bost (gweler y 'datganiad cyflawni electronig' isod).

---

[1] https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-mewn-etholiadau-lleol-yng-nghymru

[2] https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-mewn-etholiadau-cynghorau-plwyf-a-chymuned-yng-nghymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Hysbysiad Etholiad: 17 Gorffennaf 2025

3. Os bydd unrhyw etholiad yn cael ei herio fe gynhelir y bleidlais **ddydd Iau, 17 Gorffennaf 2025.**

4. Mae’n rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN erbyn **dydd Mawrth, 1 Gorffennaf 2025**. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: GOV.UK: cofrestru i bleidleisio [3]

5. Mae’n rhaid i geisiadau, newidiadau neu ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN erbyn 5pm **ddydd Mercher, 2 Gorffennaf 2025**.

6. Mae’n rhaid i geisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN erbyn 5pm **ddydd Mercher, 9 Gorffennaf 2025**.

7. Mae’n rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn, oherwydd analluogrwydd corfforol neu am resymau gwaith / gwasanaeth, gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN erbyn 5pm **ddydd Iau, 17 Gorffennaf 2025**. I wneud cais mae'n rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol ar ôl 5pm **ddydd Mercher, 9 Gorffennaf 2025.**

Wedi’i argraffu a’i gyhoeddi gan Graham Boase, Swyddog Canlyniadau, Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN

Ffôn: 01824 706000 - ebost: etholiadau@sirddinbych.gov.uk

**Dyddiedig: 12 Mehefin 2025**

[3] https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

# Hysbysiad Etholiad: 17 Gorffennaf 2025

## Datganiad Cyflawni Electronig

Mae’n rhaid i bapurau enwebu a gyflwynir yn electronig dros e-bost gael eu cyflwyno yn unol â’r trefniadau fel y nodir yn y datganiad hwn.

Gellir anfon papurau enwebu ar gyfer **Cyngor Sir Ddinbych** dros e-bost at:

Cyngorsir.ymgeiswyr@sirddinbych.gov.uk

Gellir anfon papurau enwebu ar gyfer **Cyngor Tref Prestatyn** dros e-bost at: Cyngorcymuned.ymgeiswyr@sirddinbych.gov.uk

Gellir defnyddio’r cyfeiriadau e-bost uchod ar gyfer ymholiadau enwebu hefyd ac ar gyfer cyflwyno papurau enwebu drafft ar gyfer gwiriad anffurfiol (nodwch hwn yn glir yn llinell pwnc y neges e-bost fel ‘Enwebiad Drafft ar gyfer Gwirio’).

Dylid nodi ceisiadau ffurfiol ar gyfer papurau enwebu fel ‘**Cais Enwebu Ffurfiol**’.

Lle y bo’n bosibl, **rhowch eich rhif ffôn** yn yr e-bost eglurhaol rhag ofn y bydd gennym ymholiadau.

Dylid atodi papurau enwebu at yr e-bost mewn dogfen Word neu PDF.  Mae llofnod wedi’i deipio, llofnod electronig neu lofnod inc gwlyb (ar bapur enwebu wedi’i sganio) i gyd yn llofnodion dilys ar gyfer papurau enwebu a gyflwynir yn electronig.

Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir cyn y dyddiad cau.

Nid yw derbyn derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys.  Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i hysbysu’r ymgeiswyr o’i benderfyniad o ran p’un a yw eu henwebiad yn ddilys neu beidio. Fodd bynnag, dylech dderbyn ymateb awtomatig o'r cyfeiriad e-bost a ddangosir uchod, a fydd yn nodi bod e-bost wedi'i gyrraedd. Os na fyddwch yn derbyn ymateb awtomatig cysylltwch ag etholiadau@sirddinbych.gov.uk